

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Llais y Dysgwyr Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro

Ymrwymiad

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i roi dysgwyr yn gyntaf drwy wrando ac ymateb i'w safbwyntiau. Rydym yn credu bod cynnig y cyfle i ddysgwyr gael ymwneud uniongyrchol â gwerthuso a gwella safon eu profiad dysgu eu hunain yn cael traweffaith sylweddol ar ddatblygiad a llwyddiant ein dysgwyr, ein Grŵp a'n cymuned leol yn y dyfodol. Mae Llais y Dysgwyr yn hanfodol er mwyn galluogi i'n Grŵp wneud penderfyniadau fydd yn arwain at ddatblygiad addysgu, dysgu a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r dysgwyr yn y modd mwyaf effeithiol. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd i'n lleisiau dysgwyr gael eu clywed yn allanol er mwyn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar ddogfyddiadau, gweithgareddau a pholiisiau sy'n cael effaith ar eu bywydau.

Diben y polisi hwn yw amlinellu ein hymrwymiad i geisio safbwyntiau ein dysgwyr, i wrando arnynt a gweithredu arnynt. Bydd y buddion posib yn cynnwys cynnydd mewn cyfranogiad, cadw myfyrwyr, cyflawniad, llwyddiant a symud ymlaen a bod y cynnydd hwnnw'n cael ei gynnal. Bydd gan y Grŵp gwybodaeth o safon well ynghylch safbwyntiau dysgwyr y gellir ei defnyddio yn sail i hunanasesiad a llywio newid effeithiol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwyr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff o fewn y Grŵp.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl sefydliadau partner, rhanddeiliaid ac etholfraint.

Datganiadau Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i:

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Dylanwadol.
www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf	19/06/2024
Dyddiad Adolygu Nesaf:	19/06/2026



Ddatblygu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr y cyfle i rannu eu safbwyntiau ar bob agwedd o'u taith fel dysgwr a dod yn gyfranogwyr gweithredol o fewn llywodraethiant, gwneud penderfyniadau, yn ogystal â sicrhwydd ansawdd a gwelliant. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys ystod lawn o strategaethau ymwneud dysgwyr a dulliau eraill o roi gwybod i ddysgwyr am gam(au) a gymerwyd o ganlyniad i'w barn (lle mae'n bosibl).

- Sicrhau bod adnoddau yn dod ar gael i gefnogi datblygu llais y dysgwr.
- Gwneud cysylltiadau effeithiol gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) ac ymgorffori prosesau NUS o fewn pob gweithdrefn llais y dysgwr y Grŵp, gan ymateb i fentrau newydd lle maent yn berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud cysylltiadau gyda chyrrff NUS mewn sefydliadau partner addysg uwch lle mae'n berthnasol.
- Hyfforddi'r holl staff perthnasol ynghylch y gweithdrefnau hyn.
- Rhoi gwybodaeth i'n holl ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd llais y dysgwr.
- Cynnig cefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfranogi mewn gweithgareddau llais y dysgwr.
- Cofnodi a monitro llais y dysgwr, gan wneud defnydd effeithiol o dystiolaeth a ddarperir er mwyn bod yn sail i arfer.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr, ar bob lefel a math o ddarpariaeth, yn cael ei gyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwyllo darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu gywiro, megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Darparu adnoddau digonol er mwyn cefnogi gweithgareddau llais y dysgwr.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Ymddwyn yn unol â'r polisi hwn a'r weithdrefn.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr ynghylch y polisi a'r gweithdrefnau a'u cefnogi nhw i gael unrhyw gymorth.

Mae ein holl ddysgwyr yn gyfrifol am:

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf	19/06/2024
Dyddiad Adolygu Nesaf:	19/06/2026



- Fynychu sesiynau sefydlu a thiworialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.

- Ymddwyn yn unol â'r polisi hwn, gan gynnwys mynegi unrhyw bryderon i aelod o staff dysgu neu gefnogi, er mwyn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Darparu adborth.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Ystyrir canllawiau'r Sefydliad Addysg Uwch, cyrff dyfarnu a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd perthnasol.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Darperir cefnogaeth ac arweiniad ar lôn-ladrad i'n holl ddysgwyr, waeth ym mha iaith maent yn cyflwyno eu gwaith.

Cyfeiriadau

Dolen i bolisiau a gweithdrefnau eraill:

Mae'r polisi hwn yn cysylltu gyda holl bolisiau a gweithdrefnau sefydliadol y Grŵp gan fod llais y dysgwr wedi ei wreiddio mewn gweithdrefnau'r

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd sy'n berthnasol i ymwneud y dysgwr.

Gweithdrefnau Sefydliadau Addysg Uwch Perthnasol ar gyfer ymwneud y dysgwr.

Effeithiolrwydd strategaethau sy'n gysylltiedig ag ymwneud y dysgwr o fewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn seiliedig ar y gwaith (Estyn 2014)

Canllawiau Strategaethau Ymwneud y Dysgwr ar gyfer dysgu gydol oes a darparwyd sgiliau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2010)

Cyfathrebu a Storio

Caiiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf	19/06/2024
Dyddiad Adolygu Nesaf:	19/06/2026



Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo: 2024	19eg Mehefin
Cymeradwywyd gan:	Y Prif Fwrdd
Dyddiad Adolygu Nesaf: 2026	19eg Mehefin

Rheolwr Cyfrifol: Uwch Bennaeth Taith y Dysgwr

**Arweinydd Gweithredol: Pennaeth
Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu**

Hygyrch i Fyfyrrwyr: Ydy

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu Diwethaf	19/06/2024
Dyddiad Adolygu Nesaf:	19/06/2026